**ADRODDIAD I'R CABINET**
**19 Chwefror 2015**

**Aelod(au) Cabinet: Cynghorydd Gareth Roberts a Cynghorydd Mair Rowlands**

**Pwnc:** **Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2013/2014 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**Swyddog cyswllt: Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol**

---

## Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i Aelodau'r Cabinet:

- Rhoi ystyriaeth i'r camau sydd wedi eu hadnabod a'u cymryd i ymateb i gasgliadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a chynnig unrhyw sylw ychwanegol sydd angen i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaethiaid Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ac yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd eu hystyried.
- Derbyn yr adroddiad a rhoi sel bendith i'r rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion a meysydd gwella AGGCC.

---

## Barn yr aelod lleol

Nid yw'n fater lleol.

---

## Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau'r Cabinet parthed prif ganfyddiadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o berfformiad Cyngor Gwynedd o'u hadolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Gwynedd 2013/14, yn ogystal â darparu gwybodaeth am gamau ymateb Cyngor Gwynedd ar gyfer 2014/15.

### Cyd-destun, cefndir a phwrpas Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14

Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan AGGCC. Bydd yr adroddiad adolygiad sydd yn deillio o'r gwaith yn nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

Fel rhan o'r broses bydd AGGCC yn rhoi ystyriaeth i ystod helaeth o ffynonellau tystiolaeth ar gael, gan gynnwys y trefniadau i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gyflwyno adroddiadau yn flynyddol am eu perfformiad, a chynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Ystyrir hefyd sylwadau archwilwyr ac arolygwyr eraill, yn ogystal â defnyddio gwaith rheoleiddio AGGCC eu hunain.

Cyflwynir copi o Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2013/2014 AGGCC ar gyfer Gwynedd fel **Atodiad 1**.

## Rhesymau dros argymell y penderfyniad

i. AGGCC wedi adrodd yn adolygiad 2013/14 y gwelwyd gwelliant fesul tipyn yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013/14.
ii. AGGCC wedi adnabod meysydd penodol lle mae Gwynedd wedi sicrhau cynnydd ynddynt yn 2013/14
iii. AGGCC wedi adnabod meysydd sydd angen eu gwella i'r dyfodol.
iv. Bod cynllun ymateb / rhaglen waith eisoes yn ei le gan Gyngor Gwynedd a bod hwnnw wedi ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Gwasanaethau Rhagfyr 2014 lle roedd swyddogion AGGCC yn bresennol er mwyn iddynt gyflwyno'r prif ganfyddiadau yn deillio o'u hadolygiad blynyddol.

## Ystyriaethau perthnasol

**Prif ganfyddiadau Adolygiad a Gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14**

Yn gryno, nododd yr AGGCC:

i. Gwelwyd gwelliant fesul tipyn yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013/14, gyda gwasanaethau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn y gwasanaethau i oedolion, gwelliant parhaus ym mherfformiad y gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

ii. Mae'r cyngor yn bwriadu gwneud arbedion sylweddol yn y gwasanaethau cymdeithasol erbyn 2017-18. Bydd hyn yn gofyn am newid cyflym ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig y gwasanaethau i oedolion, i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff gofal a chymorth ei gomisiynu a'i ddarparu.

iii. Mae'r cyngor wedi gwneud paratoadau i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae'r cyngor wedi gwneud newidiadau i'w arweinyddiaeth o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, yn unol â chanllawiau statudol ynghylch rôl ac atebolrwydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.Serch hynny, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o'r agenda gwasanaethau cymdeithasol.

iv. Mae gan y cyngor weledigaeth i gynllunio a datblygu gwasanaethau gyda'r gymuned a phartneriaid. Mae wedi amlinellu ei gynlluniau er mwyn

integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn y mae ganddynt anghenion cymhleth, gan roi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar.

v. Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi adroddiad cynhwysfawr a manwl i'r dinasyddion ynghylch perfformiad y cyngor. Mae strwythur yr adroddiad yn nodi'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn creu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy sy'n diogelu'r rhai sy'n agored i niwed ac sy'n cyflawni'r gwelliant angenrheidiol.

## Camau nesaf ag amserlen

### Camau ymateb Cyngor Gwynedd (fesul materion a amlygwyd gan AGGCC)

Yn ogystal i adnabod meysydd penodol lle fo Gwynedd wedi sicrhau cynnydd yn 2013/14, mae AGGCC hefyd yn adnabod meysydd lle bo angen sicrhau gwelliant a chynnydd i'r dyfodol. Yn naturiol bydd yna ofyn a disgwyliad ar y Cyngor i fod yn cymryd camau gweithredol er mwyn ymateb i'r meysydd gwella yma.

I'r perwyl yma rydym eisoes wedi llunio templed camau ymateb yn 2014/15 â rhaglen waith fesul maes gwella a gyflwynir fel **Atodiad 2**. Mae y rhaglen waith yma hefyd yn cadarnhau ba gyfarfod(ydd) bydd y meysydd gwella yn cael eu hadrodd iddynt yn cynnwys timau rheoli adrannol, paneli cyflawni a phaneli cysylltiedig a chyfrifoldebau corfforaethol. <u>Rydym yn chwilio am sel bendith y Cabinet i'r rhaglen waith yma.</u>

Mae nifer helaeth o'r camau ymateb ar gyfer eleni wedi eu hymgorffori o fewn cynlluniau gweithredu 2014/15 maes gofal Cynllun Strategol Gwynedd, rhaglen waith y Panel Rhiantu Corfforaethol a'r Panel Strategol Diogelu. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol dilynol y Cynllun Strategol (y cyfnod 2015-2017) hefyd yn ymateb i'r meysydd gwella strategol a'r meysydd risg a amlygwyd gan AGGCC.

Bydd angen sicrhau ymrwymiad llawn gan y Gwasanaethau perthnasol i fod yn darparu'r wybodaeth berthnasol yn rheolaidd er mwyn gallu monitro yn rheolaidd.

### Cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014

Ar gais gan AGGCC bu i'w uwch-swyddogion AGGCC fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014 er mwyn cyflwyno ag amlinellu eu prif ganfyddiadau o'u hadolygiad blynyddol o berfformiad 2013/14 Gwynedd. Yn y pwyllgor, trafodwyd yn ogystal camau ymateb / rhaglen waith Cyngor Gwynedd i'r meysydd gwella sydd wedi eu hadnabod gan AGGCC.

Penderfyniad y Pwyllgor Craffu oedd derbyn a nodi cynnwys yr adolygiad gan AGGCC ac y rhaglen waith ymatebol ac gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gyflwyno diweddariad ar y rhaglen waith erbyn Mis Mawrth 2015. Bydd adroddiad cynnydd yn mynd gerbron Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 16 Ebrill 2015.

Cyflwynir y prif adborth a'r pwyntiau a godwyd ym Mhwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014 yn **Atodiad 3**.

## Atodiadau

1. Atodiad 1 - Adolygiad a Gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd 2013-14
2. Atodiad 2 - Templed camau ymateb Gwynedd yn 2014/15 i feysydd angen gwella fel y adnabuwyd yn adolygiad blynyddol AGGCC 2013/14.
3. Atodiad 3 - y prif adborth a'r pwyntiau a godwyd ym Mhwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

"Mae materion fel hyn o'r pwys mwyaf gan eu bod yn ymwneud a'r modd yr ydym fel Cyngor yn delio a rhai o'n trigolion mwyaf bregus. Mae'n bwysig eithriadol felly bod y Cabinet yn gwyntyllu unrhyw bryderon sydd am drefniadau presennol y Cyngor ac yn bodloni ei hun bod y cynigion i wella yn ddigonol ac yn gyraeddadwy."

### Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad ynglyn ac ystod o gyfrifoldebau statudol. Mae'n bwysig felly fod y Cabinet yn rhoi sylw manwl i adroddiad yr Arolygaeth ynghyd a'r camau mewn ymateb wrth ddod i gasgliad ar yr argymhellion."

### Y Pennaeth Cyllid:

"Mae'r Adolygiad yma'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion AGGCC. Derbyniais sicrwydd nad oes camau yn y rhaglen waith sydd heb adnodd priodol mewn lle ar ei gyfer - naill ai yng nghyllideb sylfaenol yr Adran, neu arian un-tro wedi'i neilltuo yn y Cynllun Strategol.

Yn wyneb sefyllfa ariannol cyfredol awdurdodau lleol, dylai'r Arolygiaeth gydnabod y bydd rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fel pob adran arall, addasu i wneud mwy am gost llai dros y blynyddoedd nesaf."

---